

---

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

---

**2011 No. 2939**

**Rheoliadau Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2011**

**Ymgynghori wrth baratoi strategaeth**

4.—(1) Wrth fynd ati i baratoi strategaeth, rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol a'i awdurdodau partner ymgynghori â'r cyrff gwirfoddol hynny sydd yn ei ardal y mae o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

(2) Pan na fo Ymddiriedolaeth GIG yn "awdurdod partner", rhaid iddi, serch hynny, ymgynghori â chyrff gwirfoddol y mae o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori â hwy wrth baratoi strategaeth.